# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2016

Amser: 08.30 - 09.15

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Simon Thomas AC<br>Paul Davies AC<br>Mark Reckless AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

*Busnes yr Wythnos Hon*

*Dydd Mawrth*

Byddai'r Prif Weinidog yn gwneud datganiad ar flaenoriaethau'r Llywodraeth.

Byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn gwneud datganiad ar yr Adolygiad Ymarfer Plant i Farwolaeth Dylan Seabridge.

Byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon yn gwneud datganiad ar y Gronfa Triniaethau newydd.

Cafodd y Datganiad gan y Gweinidog dros Sgiliau a Gwyddoniaeth ar Glwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd Cymru ei dynnu'n ôl a byddai'n cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig.

*Dydd Mercher*

Byddai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith yn gwneud datganiad ar Gylchdaith Cymru.

Byddai cynigion yn cael eu cymryd i newid aelodaeth UKIP ar bwyllgorau.

Byddai Dadl Fer Bethan Jenkins, a ohiriwyd yr wythnos flaenorol, yn digwydd ar ôl y Ddadl Fer gan Mike Hedges.

*Pleidleisio*

Byddai'r Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Dadleuon Byrion ddydd Mercher.

*Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf*

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Gofynnodd y Llywydd pryd roedd y Llywodraeth yn bwriadu dwyn dadl gerbron ar ei blaenoriaethau a'i rhaglen ddeddfwriaethol, sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 11.21(ii). Cadarnhaodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r ddadl yn digwydd yn y dyfodol agos.

*Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf*

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai Busnes y Cynulliad yn cael ei drefnu yn ôl y trefniadau presennol ar gyfer dadleuon gan Aelodau Unigol a dadleuon y gwrthbleidiau, hyd nes y gwneir penderfyniad ar ddiwygio'r defnydd a wneir o amser y Cynulliad.

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 14 Medi 2016 –**

- Cynnig i newid cylch gorchwyl y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

**Dydd Mercher 28 Medi 2016 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

*Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)*

Yng nghyfarfod yr wythnos ddiwethaf, cytunodd y Pwyllgor mewn egwyddor i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cyllid ar gyfer craffu arno. Cyflwynodd y Gweinidog bapur i'r Pwyllgor Busnes, yn nodi'r dyddiadau arfaethedig ar gyfer ystyried y Bil, ond nid oedd yn cynnwys dyddiadau ar gyfer ystyried gwelliannau Cyfnod 2.

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod y dyddiadau arfaethedig a chytunwyd y dylai'r amserlen gynnwys terfyn amser dangosol ar gyfer ystyried gwelliannau Cyfnod 2 a gallai hyn newid.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i swyddogion y Llywodraeth a'r Comisiwn gysylltu â'i gilydd er mwyn cytuno ar ddyddiad arfaethedig ar gyfer Cyfnod 2 i'w gynnwys yn yr ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Cyllid, a chytunwyd i ddychwelyd at y mater yn y cyfarfod cyntaf ar ôl toriad yr haf.

## 5 Amserlen y Gyllideb

*Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch Amserlen y Gyllideb Ddrafft*

Bu'r Pwyllgor yn trafod llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gofyn am wythnos o estyniad i'r amserlen arfaethedig, o bedair i bum wythnos pan fydd y Cynulliad yn cyfarfod, er mwyn cael craffu ar y Gyllideb Ddrafft yn llawn a phriodol.

Cytunodd Simon Thomas, Paul Davies a Mark Reckless y dylid rhoi estyniad o wythnos i'r Pwyllgor Cyllid, ond esboniodd Arweinydd y Tŷ y byddai hyn yn achosi anawsterau i'r Llywodraeth.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes i swyddogion y Llywodraeth a'r Comisiwn ystyried opsiynau posibl ac i'r Pwyllgor ddychwelyd at y mater yn ystod yr wythnos gyntaf yn ôl ar ôl toriad yr haf.

## 6 Pwyllgorau

*Cylch gwaith y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn*

Bu'r Rheolwyr Busnes yn trafod papur ar newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn a chytunwyd i gyflwyno cynnig ddydd Mercher 14 Medi i'r perwyl hwnnw, yn amodol ar fân ddiwygiadau. Nododd y Llywydd y byddai'n ysgrifennu at gadeiryddion y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth Wrth Gefn a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol yn nodi eu cylchoedd gwaith newydd.

## 7 Y defnydd o amser y Cynulliad

*Y defnydd o amser y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn*

Trafododd y Pwyllgor bapur ac ynddo opsiynau ar gyfer amrywio'r ffordd y defnyddir amser y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymchwilio i ragor o opsiynau ynghylch datganiadau Aelodau; dadleuon ar ddeisebau; dadleuon cyhoeddus a chwestiynau'r llefarwyr.

Gan fod cefnogaeth gyffredinol i'r syniad o ddatganiadau pwyllgor, bydd y Llywydd yn ysgrifennu at gadeiryddion y pwyllgorau yn eu hannog i gyflwyno datganiadau ar waith y pwyllgorau o fis Medi ymlaen.

## 8 Amser cyfarfod y Comisiwn ac amserlen y pwyllgorau

*Amser cyfarfod Comisiwn y Cynulliad ac amserlen y pwyllgorau*

Trafododd y Pwyllgor bapur amserau posibl ar gyfer cyfarfodydd y Comisiynwyr yn y tymor newydd.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid cynnwys amserau cyfarfodydd y Comisiwn yn amserlen y Cynulliad ar brynhawniau Llun ac y dylid trefnu cynnal cyfarfodydd y Pwyllgorau sy'n cwrdd ar yr un diwrnod ar ôl 15.00. Dylid cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd y Comisiwn erbyn wythnos olaf y tymor blaenorol fan bellaf.

## Unrhyw Fater Arall

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid trefnu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Busnes ar gyfer 8.30 ddydd Mawrth 13 Medi ac yn y cyfarfod hwnnw, byddai'r Rheolwyr Busnes yn cadarnhau a ddylid parhau i gwrdd am 08.30 neu beidio.